HG 35.5.134

# COFFADWRIAETH

AM Y

PARCHEDIG DAVID MORGANS,

*Gweinidog yr Efengyl yn*

YSGARDAWE,

FFALD-Y-BRENIN, A'R GWERNOGE;

Yr hwn a ymadawodd o'r Byd hwn y 12fed o Fawrth,

YN Y FLWYDDYN 1810.

A GYFANSODDWYD

GAN HENRY THOMAS.

*CAERFYRDDIN:*

ARGRAFFWYD GAN J. EVANS.—1810.

LW 4814
X 205 3.2239

## COFFADWRIAETH, &c.

1 GWRANDEWCH ar fy ngalar,
Ond trist yw fy nghŵyn;
Waith angeu a'm 'speiliodd,
Ac arna'i mae'n dwyn,
Rhyw lawer o ffryndiau,
A gollais i'n wir,
Waith angeu sy'n *swayo*
Ar fôr ac ar dir.

2 Gan hyny 'rwy'n deffro,
Mi dawais yn hir,
Dysgwyliais rai misoedd
Am far'nod yn wir;
Ac 'nawr 'rwy'n dihuno,
I ganu fel hyn,
Gan ddangos fy ngofid,
Yn sobr a synn.

3 Mewn hiraeth a gofid,
'Rwy'n canu dan gur,
Waith colli hen gyfaill,
Ië, cyfaill yn wir;
Cyfaill oedd anwyl,
Tra mwynaidd a llon,
Waith colli'r fath Gristion,
'Rwy'n glafedd fy mron.

4 Wrth weled hir dewi,
Fy ngofid oedd fawr;
'Does neb a'm dyddana,
Mewn adfyd yn awr;
Hen gyfaill o'r mwyna,
A gollais yn wir,

Dihangodd o'i ofid,
I'r bywyd yn glir.

5 Fy nghyfaill sy'n gorwedd
Mewn beddrod yn awr,
A'i deulu'n galaru,
O fychan i fawr;
A Seion sy'n griddfan,
Waith colli'r un mwyn,
A'm calon laith innau
Yn glafedd ei chwyn.

6 Ac Eglwys Gwernoge
Sy'n glafedd ei gwawr,
Waith colli'r gweinidog,
Mae'n glwyfus yn awr;
A phobl Ysgardawe,
Ffald-y-brenin o'r bron,
Waith huno'r gweinidog,
A'i guddio dan don.

7 Mae colled ei deulu
A'i dylwyth yn fawr,
A cholled 'r eglwysi
Yn rhyfedd yn awr:
Ond hyn yw eu cysur,
Mae'r Iesu yn fyw,
Yn ddiogel fe'u ceidw
Mewn adfyd heb friw.

8 Gweddied 'r eglwysi
Ymddifaid o hyd,
Yn ddyfal ar Iesu,
Cynhaliwr y byd,
Ar iddynt gael etto
Rai d'rawo eu tro,
Fo'n ddoniol a duwiol,
Sancteiddiol eu co'.

9 A chwithau'i gydmares
Ei fywyd ef gynt,
O pwyswch ar Iesu,
Fel priod a ffrynd;
Efe ydyw'r priod,
A'r cyfaill a dâl
Rhoi arno eich goglyd,
Fe'ch portha chwi'n ha'l.

10 Er marw'ch mwyn briod
Naturiol yn awr,
Na wylwch heb obaith,
I ddigio'r Duw mawr,
Efe a'i cymmerodd
O'i gystudd a'i boen,
I entrych gogoniant,
Er moliant i'r Oen.

11 A chwithau'i blant anwyl,
Chwi goll'soch eich tad,
Un tyner a ch'ruaidd,
Un llariaidd difrad;
Fe'ch magodd chwi'n lan-wedd,
Fe'ch helpiodd chwi fyw;
Rhowch ddiolch am dano
I'r Arglwydd eich Duw.

12 O cofiwch mai'r Arglwydd
A'i rhoddodd i chwi,
Ac a'i cymmerodd,
Heb ofyn i ni;
Efe a'i cystuddiodd
Ac a laesodd ei boen,
Efe a'i cymmerodd
I gwmp'ni yr Oen.

13 Ni welir mo hono
Yn y Doleu na'r Pant,

Gadawodd ef rhei'ny
I'w briod a'i blant;
A theulu 'Berceiliog
Na wylwch ddim mwy,
Fe ddarfu ei ddolur,
Fe wellwyd ei glwy'.

14 A chwithau'i fam anwyl,
Dihangodd o'ch bla'n,
Trwy'r arw Iorddonen,
I Gaersalem lân;
Ar fyrder daw'r angeu
Ie'n hol ninnau gyd;
O byddwn yn barod,
Ni's gwyddom pwy bryd.

15 O'i anwyl fwyn briod,
A'i dylwyth i gyd,
Chwi goll'soch ffrynd anwyl,
Ffrynd mwynaidd ei fryd:
Ond etto mae'r Iesu
Yn d'wedyd yn awr,
Na byddwch ymddifaid
Tra bo'ch ar y llawr.

16 Yn nghanol gofidiau
O ddyfroedd a thân,
Ni wywa'ch calonau
Tra'r Arglwydd o'ch bla'n
Er colli'r ffrynd goreu
O ddynion i gyd,
Mae'r Iesu ei hunan
Yn ddigon o hyd.

17 Un hawddgar, un diddig,
Oedd Morgans o hyd,
Un diwyd, un doniol,
Un duwiol ei fryd,

Gweinidog defnyddiol,
Rhagorol oedd ef,
Yn gywir fe gerddodd,
Nes myned i'r nef.

18 Un ugain o flwyddau
Yn weinidog y bu,
Heb arno un cwmwl
Ddystawodd ei gri;
Ond Iesu a'i daliodd
Heb lithro i lawr,
Fe gadwodd ei lwybr
Yn hardd-deg ei wawr.

19 Un hyddysg o'r 'sgrythyr
Yn gyson oedd ef,
Yn hynod fe 'sponiai
Lân eiriau y nef;
Arddelwyd e'n hynod
Gan Dduw Ysbryd Glân,
I attal rhai 'geiniau
Rhag myned i'r tân.

20 Yn hynod fe'i llonwyd
A llwyddiant yn llawn,
Yn mhlith ei eglwysi
Gan amlder eu dawn;
Fe godwyd pregethwyr,
Do, amryw yn wir,
O ddynion go ddoniol,
Defnyddiol bo'r gwyr.

21 Gan bobl ei ofal
Fe godwyd i'r lan,
Do, ddeg o bregethwyr,
Nid eiddil a gwan;
Yn wrol b'o rhei'ny,
I gario o hyd

Efengyl yr Iesu
Yn iachus i'r byd.

22 A chanddo ce's innau
Gynghorion go dda,
I adael pob tegan,
A phechod, a phla,
A pheidio anghofio
Yr Arglwydd na'i dŷ;
Yn hynod o gywir
Cynghorodd e' fi.

23 Bu amryw o fisoedd
Mewn cystudd tra mawr,
Dyoddefodd e'r cwbwl
Yn addfwyn ei wawr,
O hynod mor dawel
A diddig oedd e',
Bob amser i'w briod,
Heb ofid na phle.

24 Yn gadarn fe gredai
Addewid ei Dduw,
Na roddai 'fe fynu
O'i bobl mewn briw,
Ie, hyny fe dd'wedodd,
Mi clywais e'n glir,
Yn bostio'r addewid,
'Rwy'n d'wedyd y gwir.

25 Dau ugain a phymtheg,
A blwyddyn yn fwy,
Oedd oedran y Morgans,
Pan ddarfu ei glwy';
Ac oed ein Iachawdwr,
Oedd deunaw cant lawn,
A deng mlwydd yn rhagor,
'Nol 'r hanes a gawn.

26 Ei gorph ef a gladdwyd
Mewn beddrod yn brudd,
Yn mynwent Llan'bydder,
I ymgymmysg â'r pridd,
Nes delo'r Duw cyfiawn
I'w godi i'r lan,
Pryd hyny bydd Morgans
Heb ddolur 'n un man.

27 Ei enaid a hedodd,
Dihangodd o'i boen,
Mae'n hwylus, 'rwy'n credu,
Yn clodfori'r Oen:
Gobeithio cawn ninnau
Fyn'd ato ryw bryd,
I fythol gyd-foli
Iachawdwr y byd.

28 Ffarwela dros ronyn,
Ti gefaist y bla'n
Ar lawer sy'n canlyn
Trwy ddyfroedd a thân:
Ar fyrder dof finnau,
Trwy gymmorth fy Nuw,
Er meithed yw'r anial,
Ie, atat i fyw.

29 A hynod mor felus
Yw medwl yn awr,
Ca'r seintiau gyd-gwrddyd
Yn gryno ryw awr,
Heb neb o'r rhai gwana'
Yn eisiau pryd hyn,
O hyfryd gymmanfa!
Ca'i nhelyn yn dynn.

DIWEDD.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES